| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | Bwrdd y Cyngor |
| DYDDIAD | 11 Hydref 2011 |
| TEITL | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartref Preswyl Hafod y Gest, Porthmadog |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Ystyried argymhellion a gyflwynwyd yn dilyn yr ymgynghoriad gan y Bwrdd Prosiect ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal |
| AWDUR | Gwen Carrington, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO | Cynghorydd R H Wyn Williams<br>Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol |

## 1.0 Cefndir

1.1 Yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror 2011 awdurdodwyd ymarferiad ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â dyfodol cartref preswyl Hafod y Gest, Porthmadog. Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar 1 Gorffennaf ac adroddwyd ar y canlyniadau ac argymhellion i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 13 Medi. (gweler Atodiad A)

1.2 Mae'r argymhellion a gyflwynwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn yn cynnig:-

a) dod â defnydd Hafod y Gest fel cartref preswyl i ben a hynny wedi ei amseru yn unol ag amserlen datblygu tai gofal ychwanegol ar y safle.

b) sicrhau asesiadau o drigolion presennol Hafod y Gest ac ail gartrefu'r trigolion yn unol â'u hanghenion unigol.

c) cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd i drosglwyddo'r safle yn ddi-dâl i Gymdeithas Tai Eryri.

ch) cefnogi'r Aelod Portffolio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru i arallgyfeirio grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i adeiladu TG yn Llan Ffestiniog i ddatblygu cynlluniau TGY Porthmadog a Bangor.

1.3 Penderfynwyd gan y Pwyllgor Craffu:-

a) Argymell i Fwrdd y Cyngor y dylid gwrthod holl argymhellion y Bwrdd Prosiect.

b) Argymell i Fwrdd y Cyngor bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal gyda'r preswyliwyr a'r gymuned leol a bod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu maes o law.

1.4 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi prif gasgliadau'r ymgynghoriad a'r trafodaethau sydd ynghlwm iddynt gan ofyn i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ac argymhellion y Pwyllgor Craffu ei hun.

## 2.0 Gweledigaeth y Cyngor

Mae gweledigaeth y Cyngor yn seiliedig ar ddyheadau pobl hŷn Gwynedd, sef hybu a chynnal annibyniaeth unigolion bregus gan eu galluogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib. I wneud hyn cytunwyd eisoes i gynyddu'r gefnogaeth sydd i'w gael i unigolion fyw gartref a hefyd i gynyddu'r dewis o safbwynt y llety sydd ar gael gan gynnwys cynyddu nifer o dai gofal ychwanegol. Canlyniad anorfod gweithredu'r weledigaeth hon yw lleihad yn yr angen am ofal preswyl cyffredin. Mae'r lleihad eisoes yn amlwg yn y nifer o welyau gwag sydd yng nghartrefi'r sir. Mae hyn wedi'i gydnabod gan y Cyngor wrth benderfynu ar y cyfeiriad strategol sydd wedi'i fabwysiadau a bellach sy'n cael ei weithredu.

## 3.0 Canlyniadau'r Ymgynghoriad

3.1 Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn crynhoi cefndir i'r ymgynghoriad gyda'r pecyn gwybodaeth a rannwyd ynghlwm i'r adroddiad ynghyd â'r canlyniadau. Yn ychwanegol mae canlyniadau ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Porthmadog wedi'i gynnwys.

3.2 Crynhoir prif ganlyniadau yr ymgynghoriad fel a ganlyn:-

- Roedd gan 42.1% a ymatebodd gysylltiad gyda'r cartref.
- Roedd 53.4% yn cytuno â chynlluniau Cyngor Gwynedd i helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.
- Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai Cyngor Gwynedd fuddsoddi yn ychwanegol mewn gwasanaethau i gynorthwyo pobl hŷn i barhau i fyw gartref. Roedd 76.7% am weld gofal cartref yn datblygu, 67.7% am weld datblygiad yn y gwasanaethau gofal dydd a 51.9% am weld datblygiad yn y gwasanaethau gofal canolraddol.
- Roedd 41.4% yn cefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog

- Roedd 61.7% yn credu ei fod yn rhesymol i Gyngor Gwynedd fuddsoddi £462,000 yn y tymor byr i gynnal adeilad Hafod Y Gest a £1,320,000 yn y dyfodol i addasu’r cartref.

- Roedd 79.7% yn credu y dylid buddsoddi yn y cartref presennol a’i wella i safon fyddai’n cyfarch dyheadau trigolion i’r dyfodol sef Opsiwn 1.

- Roedd 11.3% o blaid datblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau’r cartref presennol.

3.3 Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Darparu a Hamdden i'r ymgynghoriad ar ran staff y cartref yn ogystal â barn rheolwyr ac uwch reolwyr yr Adran.

3.4 Mewn ymateb i’r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Porthmadog roedd 58.11% yn ffafrio buddsoddi yn Hafod y Gest. Roedd 72.75% yn gefnogol i adeiladu tai gofal ychwanegol ar safle presennol Hafod y Gest pe byddid yn bwrw ymlaen gyda’r tai gofal ychwanegol.

## 4.0 <u>Prif Ystyriaethau</u>

4.1 Mae dau brif reswm dros ystyried dyfodol cartref preswyl Hafod y Gest sef

i) yr angen sylweddol sydd i wario ar yr adeilad i sicrhau cartref sy’n addas ac yn ymateb i ddyheadau trigolion i’r dyfodol. Amcangyfrifir angen gwario tua £2.2 miliwn ar yr adeilad. Nid yw hyn wedi’i gynnwys yng nghynllun rheoli asedau y Cyngor ac o’i gynnwys mi fyddai angen blaenoriaethu’r gyllideb i dalu am y gwaith. Mae canlyniadau’r ymgynghoriad hefyd yn dangos awydd cryf i ymateb i ddyheadau trigolion i barhau i fyw adref cyn hired â phosib drwy ddatblygu gwasanaethau fyddai yn cefnogi hyn. Mae tensiwn amlwg felly rhwng gwario ar wella’r cartref presennol, fyddai ond yn ymestyn ei oes 20-25 mlynedd ac yn golygu symud trigolion i alluogi’r gwaith ddigwydd, a buddsoddi i sicrhau gwasanaethau i gefnogi unigolion i fyw adref. Gan mai’r opsiwn yma sy’n gyson â gweledigaeth y Cyngor fe’i hargymhellir gan y Bwrdd Prosiect.

ii) yr angen am wlâu preswyl yn Nalgylch Porthmadog. Bu i’r Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio amlygu gormodedd o wlâu preswyl a nyrsio yn yr ardal gydag anghenion penodol i gynyddu gofal dementia a thai gofal ychwanegol yn cael ei adnabod. Adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ynglŷn â’r nifer o wlâu gwag oedd yng nghartrefi’r ardal ac mae’r sefyllfa yma yn parhau ac yn cadarnhau fod y capasiti ar gael i ymateb i ofynion presennol ac i'r dyfodol. Mae tueddiadau defnydd lleol ac yn genedlaethol yn gostwng gyda Gwynedd â’r nifer uchaf o bobl mewn cartrefi gofal heblaw am un awdurdod arall. Mae newid pwyslais y ddarpariaeth i gynyddu’r nifer o dai gofal ychwanegol yn gyson â’r penderfyniadau strategol a wnaed gan y Cyngor wrth ystyried anghenion a dyheadau trigolion.

## 5.0 Diweddariad Tai Gofal Ychwanegol

5.1 Adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal fod trafodaethau gyda Chymdeithas Tai Eryri wedi arwain at y Gymdeithas yn ffafrio datblygu tai gofal ychwanegol ar safle cartref Hafod y Gest. Rhagwelir cynllun hyd at 42 uned (27 uned 2 llofft a 15 uned 1 llofft) ar gost o £6.5m.

5.2 Cyflwynwyd cynlluniau drafft i Fforwm Ardal Porthmadog (copi ynghlwm – Atodiad B) sy’n dangos amlinelliad o'r datblygiad. Pwysleisir mai cynlluniau cychwynnol yw'r rhain ac mi fyddai’n fwriad gan Gymdeithas Tai Eryri i ymgynghori yn lleol ar y dyluniad manwl cyn cyflwyno cais cynllunio.

5.3 Oherwydd nad oes Grant Tai Cymdeithasol wedi’i ddyrannu i'r datblygiad mae gofyn i'r Gymdeithas ei ariannu heb grant. I sicrhau rhenti fforddiadwy fodd bynnag mae cais wedi’i wneud i drosglwyddo’r safle yn ddi-dâl a’r angen am gyfraniad o hyd at £1.5m tuag at gost y cynllun.

5.4 Argymhellir gwneud cais i Lywodraeth Cymru am yr hawl i drosglwyddo grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i gynllun tai gofal ychwanegol Llan Ffestiniog i'r pwrpas yma a hefyd i hwyluso datblygiad ar dai gofal ychwanegol ym Mangor sydd mewn sefyllfa debyg o safbwynt absenoldeb grant tai cymdeithasol i ariannu datblygiad o dai gofal ychwanegol.

## 6.0 Argymhelliad Pwyllgor Craffu Gofal - Ymgynghoriad Ychwanegol

6.1 Mae’r Pwyllgor Craffu Gofal yn argymell “ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal gyda’r preswylwyr a’r gymuned leol a bod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu”.

6.2 Mae’r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn statudol gyda’r pwyslais ar gynnwys budd-ddeiliaid cartref Hafod y Gest. Danfonwyd 410 pecyn gwybodaeth a holiaduron i wahanol gyrff ac asiantaethau ynghyd ag unrhyw un a wnaed cais am wybodaeth. Hysbyswyd y gymuned leol o'r ymgynghoriad naill ai drwy lythyr, drwy rybudd ffurfiol a datganiadau yn y wasg neu, drwy gyfarfodydd. Yn ychwanegol i hyn bu i'r Cyngor Tref ymgynghori drwy 2400 o holiaduron lleol gyda chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i'w hystyried. Awgrymir felly nad oes mwy i'w ennill drwy ymgynghoriad pellach.

## 7.0 Crynodeb Ystyriaethau Allweddol

7.1 Mae rhan 11 o’r adroddiad i’r Pwyllgor Craffu Gofal yn nodi’r canlynol fel yr ystyriaethau allweddol:-

i) mae’r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r opsiwn o fuddsoddi yn y cartref presennol ac yn canmol safon y gofal yno.

ii) mae’r ymgynghoriad hefyd yn dangos cefnogaeth i ddatblygu tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog ac i hynny ddigwydd ar safle presennol Hafod y Gest.

iii) mynegwyd dyhead cryf i ddatblygu gwasanaethau sy’n cefnogi unigolion i fyw gartref.

iv) mae gwlâu preswyl a nyrsio ar gael yn yr ardal i ymateb i ofynion presennol ac i'r dyfodol.

v) i ddatblygu Hafod y Gest i fod yn gartref fyddai yn ymateb i ddyheadau pobl yn y dyfodol, mae angen gwariant sylweddol.

vi) mae’r Cyngor eisoes wedi cytuno i gefnogi mwy o bobl yn byw gartref, cynyddu nifer y tai gofal ychwanegol a lleihau nifer y gwlâu preswyl traddodiadol sydd ar gael yng Ngwynedd.

7.2 Gwelir islaw hefyd sut mae’r ddau opsiwn dan sylw yn cyd-fynd â phenderfyniadau strategol mae’r Cyngor eisoes wedi’i gymryd:-

| **Meini prawf** | **Opsiwn 1 - Buddsoddi yn y cartref presennol a’i wella i safon fyddai’n cyfarch dyheadau trigolion i’r dyfodol** | **Opsiwn 2 - Buddsoddi i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau’r cartref presennol** |
|---|---|---|
| Lleihau gwelyau preswyl traddodiadol a dod yn nes at gyfartaledd Cymru (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 12 Hydref, 2010) | X | √ |
| Cynyddu nifer y Tai Gofal Ychwanegol yng Ngwynedd (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 17 Chwefror, 2009) | X | √ |
| Cyfrannu at darged arbedion o £1.3 miliwn erbyn Ebrill 2012 (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 1 Rhagfyr, 2009) | X | √ |

## 8.0 <u>Asesiad Effaith Cydraddoldeb</u>

8.1 Yn unol â’r gofynion cyfreithiol gwnaed Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal a gellir gweld copi llawn o'r asesiad yn Atodiad 5 i’r Adroddiad Pwyllgor Craffu Gofal.

8.2 Mae’r Asesiad yn dod i gasgliad nad yw’r effaith yn fwy ar unrhyw un o’r grwpiau cydraddoldeb. Fodd bynnag oherwydd natur y cynnig mae’n amlwg ei fod yn ymwneud yn benodol a phobl hŷn. Nodir fodd bynnag, nad oedd gwybodaeth ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â’r tai gofal ychwanegol ond gellid unioni hyn drwy sicrhau cyswllt penodol gyda defnyddwyr wrth

ddatblygu'r cynllun ymhellach. Mae Cymdeithas Tai Eryri eisoes wedi derbyn eu bwriad i ymgynghori'n lleol ynglŷn â dyluniad y cynlluniau tai gofal ychwanegol.

8.3 Nodir pe byddai Bwrdd y Cyngor yn derbyn argymhellion y Bwrdd Prosiect y bydd cynllun gweithredu yn cael ei baratoi a'i weithredu gan y Bwrdd Prosiect.

## 9.0 Argymhellion

9.1 Roedd yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal (gweler para 1.2) yn seiliedig ar yr ystyriaethau allweddol a nodwyd yn rhan 7 o'r adroddiad yma. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion yma a hefyd argymhelliad y Pwyllgor Craffu Gofal fel nodwyd ym mhara 1.3.

A. Barn yr Aelod(au) Lleol:-

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cyswllt gyda'r aelodau lleol drwy'r cyfnod ymgynghori a'r cyfnod mwy diweddar wrth gyflwyno'r argymhellion. Mae'n deg adrodd fod yr aelodau lleol yn gefnogol iawn i sicrhau dyfodol Hafod y Gest neu barhad i gartref preswyl ar y safle. Estynnir gwahoddiad i'r aelodau lleol i gyfarfod y Bwrdd i gyflwyno sylwadau.

B. Barn y Swyddogion Statudol:-

1. Prif Weithredwr:-

"Mae'r adroddiad yn amlinellu'n glir iawn y rhesymeg y tu ôl i'r dewis sydd gerbron. O ran yr ymateb i'r ymgynghoriad, a'r hyn a ddeallaf o'r drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu, mae'n ymddangos bod cytundeb â chyfeiriad strategol y Cyngor i hybu annibyniaeth, cadw pobl yn eu cartrefi a hybu amrywiaeth a hyblygrwydd o ran y math o ofal i'w gynnig ond pan y mae'n dod i effaith hynny ar un sefydliad a hynny'n sefydliad sydd yn cael ei werthfawrogi, mae nerfusrwydd amlwg ac amharodrwydd i newid.

Y cwestiwn i'r Bwrdd yw a ydyw am dderbyn yr amharodrwydd hynny neu a yw am fwrw ymlaen oherwydd ei fod yn cael ei argyhoeddi mai dyma'r peth iawn i'w wneud er lles i'r dyfodol. Awgrymaf mai dyna ddylai ddigwydd."

2. Swyddog Monitro:-

"Mae'r ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol â chais y Bwrdd a'r drefn statudol. Credir fod gan y Bwrdd bellach yr holl wybodaeth mae ei angen a hoffwn ei atgoffa ei bod yn ddyletswydd arno i bwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol wrth ddod i'w benderfyniad. Mae'r ffactorau yma wedi eu crynhoi yn adroddiad y Bwrdd ac yn cynnwys, ymysg pethau eraill, yr ymatebion i'r ymgynghoriad."

3. Prif Swyddog Cyllid:-

"Bu ymgynghoriad gyda phobl lleol a rhai sydd â diddordeb penodol yn y sefydliad, ymysg eraill. Fodd bynnag, dylid ystyried yr ymatebion yng nghyd-destun dyheadau holl drethdalwyr a dinasyddion Gwynedd eang, a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn diwallu'r holl ddyheadau rheiny. Mewn cyfnod caled pryd fydd ffynonellau i ariannu cyfalaf yn crebachu'n ddigynsail, mae rhan 4.1(i) o'r adroddiad yn gwneud yn gwbl glir bod angen gwario £2.2m ar yr adeilad er mwyn ymestyn ei oes am gyfnod cyfyngedig. Byddai raid adnabod prosiectau eraill gwerthfawr i'w aberthu er mwyn gwneud hynny, tra deallaf o ran 4.1(ii) o'r adroddiad fod digon o ddarpariaeth gofal preswyl amgen yn yr ardal."

C. Papurau Cefndir

CH. Goblygiadau Polisi